

# **POSTCOMM**

## **Comisiwn y Gwasanaethau Post**

### **PWY YDYM NI**

Comisiwn y Gwasanaethau Post yw Postcomm, ac mae'n rheolydd annibynnol. Ei waith yw sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr y gwasanaeth post yn y DU trwy gyflwyno dewis ar sail cystadleuaeth. Sefydlwyd y comisiwn dan Ddeddf y Gwasanaethau Post 2000 fel adran anweinidogol o'r llywodraeth.

Caiff ein polisiau eu llywio gan fwrdd o saith comisiynydd dan law'r Cadeirydd, Nigel Stapleton. Mae gan y comisiynwyr brofiad helaeth ym maes cystadleuaeth, busnes, materion defnyddwyr a rhanbarthol, gweithrediadau post, undebau llafur, y llywodraeth a rheoleiddio.

### **BETH RYDYM NI'N EI WNEUD**

Parhad y gwasanaeth post cyffredinol yw sail ein holl weithgarwch, sef, trefnu bod llythyrau'n cael eu dosbarthu i bob cwr o'r DU am yr un pris stamp fforddiadwy. Mae'r gwasanaeth cyffredinol hefyd yn gwarantu bod post yn cael ei gasglu a'i ddosbarthu bob dydd, chwe diwrnod yr wythnos.

Agorodd Postcomm y farchnad i gystadleuaeth lawn ym mis Ionawr 2006. Mae'r holl weithredwyr post, gan gynnwys y Post Brenhinol yn cael eu trwyddedu gan Postcomm. Mae'r sawl sydd â thrwydded yn gorfod sicrhau bod y post sydd dan eu gofal yn gwbl ddiogel a'u bod yn cynnal safonau penodol.

Ar hyn o bryd y Post Brenhinol sy'n bennaf gyfrifol am y farchnad lythyrau, ac mae hyn yn debygol o barhau'n wir am y blynyddoedd sydd i ddod, felly mae Postcomm yn rheoleiddio ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol a phrisiau'r gwasanaethau. Mae hyn yn diogelu buddiannau cwsmeriaid ac yn atal y cwmni rhag manteisio'n annheg ar ei sefyllfa gref.

O ran rhwydwaith y Swyddfeydd Post, gwaith Postcomm yw monitro datblygiadau a darparu adroddiadau blynyddol i'r llywodraeth. Mater i'r llywodraeth yw penderfynu ar ddyfodol y Swyddfeydd Post.

### **EIN GWAITH**

Ein prif feysydd gwaith yw:

#### **Monitro'r farchnad a'r gwasanaeth cyffredinol**

Rydym yn monitro'r farchnad bost i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn gweithio'n iawn a bod cystadleuaeth yn datblygu mewn modd sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid.

## **Cystadleuaeth**

Cyflwynwyd yr elfen gystadleuol fesul cam, gan ddechrau ym mis Ionawr 2003 pan fu cyfle i gystadlu am y gwaith o ddosbarthu llwythi swmp dros 4,000 o eitemau post. Roedd hyn yn agor tua 30% o farchnad y DU i gystadleuaeth.

Yn 2004, cytunodd y Post Brenhinol ar brisiau mynediad gan alluogi cyfunwyr busnes post i drosglwyddo post i'w ddosbarthu'n derfynol ledled y wlad gan bostmyn y Post Brenhinol.

Ar 1 Ionawr 2006, dilëwyd yr holl gyfyngiadau i'r farchnad gan sefydlu marchnad lydan agored. Gwireddwyd y cam hwn dros flwyddyn yn gynt na'r cynllun gwreiddiol, mewn ymateb i'r galw gan ddefnyddwyr post fel bod mwy o gwsmeriaid yn gallu elwa ar fanteision cystadleuaeth.

Mae Postcomm yn gwbl gefnogol i amcanion Cyfarwyddeb y Gwasanaethau Post Ewropeaidd sy'n ceisio rhyddhau'r farchnad bost yn Ewrop. Mae'r DU yn un o nifer o Aelod-wladwriaethau sy'n hyrwyddo buddiannau cwsmeriaid post trwy arwain y ffordd gan ddod â chystadleuaeth i'r farchnad bost.

## **Trwyddedu**

Mae pob cwmni sy'n dosbarthu llythyrau sy'n pwyso hyd at 350 gram ac yn costio llai na £1 i'w dosbarthu, yn gorfod cael trwydded gan Postcomm. Cyn rhoi trwydded, bydd cyfnod o ymgynghori ar y cais a fydd yn o leiaf 28 niwrnod, fel bod gan bartion â buddiant gyfle i roi sylwadau. Ar ddiwedd y cyfnod hwn ac ar ôl nodi'r ymatebion, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar a ddylid caniatáu'r drwydded ac ar ei ffurf.

## **Mynediad i rwydwaith y Post Brenhinol**

Mae postmyn y Post Brenhinol yn dosbarthu i bob cyfeiriad ledled y DU - tua 27 miliwn. Mae'r gwasanaeth hwn yn ased gwerthfawr i'r Post Brenhinol ac mae rhai cystadleuwyr yn trafod gyda'r cwmni ac yn talu am gael eu llythyrau wedi'u cludo 'y filltir olaf'. Fel rheol, cwmni'r gwasanaethau post sy'n casglu post oddi wrth eu cwsmeriaid gan ei ddosrannu a'i gludo i un o leoliadau rhwydwaith dosbarthu'r Post Brenhinol i'w gludo i ben ei daith. Mae Postcomm wedi annog y trefniadau mynediad hyn gan eu bod yn rhoi mwy o ddewis i'w cwsmeriaid busnes ac yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y broses o gasglu a dosrannu'r post.

## **Rheoli prisiau'r Post Brenhinol**

Tra pery'r Post Brenhinol yn bennaf gyfrifol, Postcomm fydd yn rheoleiddio prisiau'r Post Brenhinol. Mae Postcomm yn gosod fframwaith prasio bob tair neu bum mlynedd a dim ond o fewn y terfynau a nodir yn y fframwaith hwnnw y gall y Post Brenhinol godi prisiau.

## **Gosod ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol**

Mae Postcomm hefyd yn gosod targedau gwasanaeth ar gyfer y Post Brenhinol. Mae'r targedau'n gofyn, er enghraifft, fod 93% o bost dosbarth cyntaf yn cyrraedd pen ei daith ar y diwrnod canlynol. Mae Postwatch, y Cyngor Defnyddwyr annibynnol ar gyfer y Gwasanaethau Post a Postcomm yn monitro perfformiad y Post Brenhinol yn erbyn y targedau hyn ac yn archwilio agweddau eraill ar wasanaethau i gwsmeriaid i sicrhau bod y cwmni'n cyflawni ei ymrwymïadau i gwsmeriaid.

## **Cyngor ar rwydwaith y Swyddfeydd Post**

Mae mwy na 14,500 o Swyddfeydd Post yn y DU, ac oddeutu 28 miliwn yn eu defnyddio bob wythnos. Mae Postcomm yn gweithredu fel cynghorydd i'r Llywodraeth ar y rhwydwaith Swyddfeydd Post ac mae ein rhaglen ymchwil eang yn darparu gwybodaeth ar gyfer ein hadroddiadau blynyddol i'r llywodraeth ar ddatblygiadau yn y rhwydweithiau gwledig a threfol.

## **PWY SY'N TALU AM POSTCOMM?**

Noddir Postcomm gan ddeiliaid y trwyddedau post. Rydym yn codi tâl sy'n cynyddu yn unol â faint o bost y mae'r cwmni wedi ei drwyddedu i'w drin. Y Post Brenhinol yw'r mwyaf o bell ffordd, ac mae'n trin 80 miliwn o eitemau'r dydd. Mae cyllideb flynyddol Postcomm tua £10 miliwn. Mae gennym oddeutu 60 o staff.

## **EIN CYFRIFOLDEBAU**

Mae Postcomm yn uniongyrchol atebol i'r Senedd am ei weithredoedd. Mewn gwirionedd, y Pwyllgor Masnach a Diwydiant sydd â'r diddordeb pennaf yn ein gwaith, ond mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sef adran gyfrifon y llywodraeth, yn craffu ar gyllideb Postcomm, ac yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus holi Postcomm am faterion ariannol.

## **CWYNION CWSMERIAID**

Mae Postwatch, y Cyngor Defnyddwyr annibynnol ar gyfer y Gwasanaethau Post, yn ymgyrchu dros fuddiannau defnyddwyr, yn enwedig pobl anabl, pensiynwyr, pobl ar incwm isel a'r sawl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae Postwatch yn ymdrin â chwynion cwsmeriaid y Post Brenhinol, Parcelforce Worldwide, Swyddfeydd Post ac unrhyw un sy'n dal trwydded i ddarparu gwasanaethau post.

Gall cwsmeriaid sy'n methu cael ateb boddhaol i'w cwyn gan y cwmni post perthnasol ysgrifennu i Postwatch yn 28 Grosvenor Gardens, Llundain SW1W 0TT, neu ffonio'r llinell gymorth, 08456 013265, neu anfon e-bost i: [info@postwatch.co.uk](mailto:info@postwatch.co.uk).

## **CYSYLLTU Â NI**

Postcomm  
6 Hercules Road  
London SE1 7DB

Mae fersiwn llythrennau bras o'r daflen hon ar gael gan Postcomm

Ffôn 020 7593 2100

Gwefan [www.psc.gov.uk](http://www.psc.gov.uk)

Ebst info@psc.gov.uk